

Claire Homard
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid)



Holl Fudd-ddeiliaid/Ymgynghorai

Eich Cyf/Your Ref

Ein Cyf/Our Ref

Dyddiad/Date

Gofynnwch am/Ask

Rhif

CH/LB

9 Ionawr 2023

Tîm Moderneiddio
Ysgolion

01352 702188

Annwyl Fudd-ddeiliad/Ymgynghorai

Cynnig i ehangu eiddo yn Ysgol Gynradd Drury gan Gynyddu'r Capasiti yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o Ddisgyblion Llawn Amser o 1 Medi 2024

Ar ddydd Iau 20 Rhagfyr 2022, penderfynodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Drury o'i darpariaeth bresennol, sef 124 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 180 o leoedd llawn amser, sef cynnydd o 56 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2024 ymlaen.

Ystyriodd y Cabinet y Cynnig, y sylwadau a gyflwynwyd, ac maent wedi ymateb yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Yr Ail Gynhyrchiad, 2018. Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig.

Wrth benderfynu ar y cynnig, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn:

- Cynnal y safon gyfredol o addysg yn yr ardal a disgwylir y bydd yn cael effaith cadarnhaol ar safonau yn yr ysgol.
- Cynyddu capasiti yr ysgol sydd wedi bod yn llawn yn barhaus am nifer o flynyddoedd, a lliniaru'r angen am lety symudol sydd mewn lle ar hyn o bryd.
- Darparu digon o gapasiti i fodloni'r galw disgwylidig gan deuluoedd lleol am y dyfodol rhagweladwy.

Mae'r cynnig wedi ystyried unrhyw faterion cydraddoldeb a nodwyd trwy gwblhau'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

Ymdrinnir â threfniadau mynediad yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdodau Lleol.

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk



Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
The Council welcomes correspondence in Welsh or English.

Ymdrinnir â chcludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdodau Lleol.

O dan adran 54 Deddf 2013 lle mae cynigion wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol, gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru ar gyfer ystyriaeth;

- Awdurdod Lleol arall y mae'r cynnig yn effeithio arno
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arni
- Corff llywodraethu unrhyw ysgol wirfoddol neu ysgolion sefydledig sy'n destun y cynnig
- Ymddiriedolaeth sy'n meddu ar dir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun y cynnig
- Sefydliad Addysg Bellach sy'n cael ei effeithio gan y cynnig

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw Wrthwynebiad Statudol gan Fudd-ddeiliaid yn ystod y broses Gwrthwynebu ffurfiol.

Yn dilyn y penderfyniad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda theuluoedd, staff a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Drury er mwyn sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl i ddisgyblion yn ystod y gwaith ehangu.

Yn gywir,



Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid